# Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan a'r dyddiad |
|---|---|---|
| Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr | Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Awst 2019 |
| **Yn disodli** | **Adolygwyd ddiwethaf** | **Pwrpas y newid a disgrifiad ohono** |
| Polisi Prifysgol Bangor ar Aflonyddu ar Fyfyrwyr | Hydref 2022 | Adolygiad Cyffredinol |
| **Asesiad Effaith Cydraddoldeb** | **Asesiad Cynaliadwyedd** | **Asesiad Iaith Gymraeg** |
| Cwblhawyd | Cwblhawyd | |

# Prifysgol Bangor
# Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr

## 1. Diffiniadau o Aflonyddu

Diffinnir aflonyddu gan Cyngor ar Bopeth fel "unrhyw ymddygiad digroeso yr ydych yn ei ystyried yn dramgwyddus neu sy'n gwneud ichi deimlo'n ofnus neu'n sy'n eich bychanu".[i] Effaith yr ymddygiad yn hytrach na bwriad y sawl sy'n ei gyflawni yw'r ffactor sy'n pennu a oedd yn aflonyddu ai peidio.

Mae enghreifftiau o ymddygiad annerbyniol yn cynnwys y rhain ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- cyswllt corfforol: cyffwrdd digroeso, bygwth, ymddygiad ymosodol, ymosodiad difrifol a bygythiadau i niweidio neu frifo;
- ar lafar neu'n ysgrifenedig (yn cynnwys ar-lein a chyfryngau cymdeithasol): sylwadau, awgrymiadau a chynigion digroeso, sibrydion maleisus, jôcs a thynnu coes, iaith anweddus;
- di-eiriau: llenyddiaeth neu luniau anweddus, graffiti a lluniau cyfrifiadurol, ystumiau anweddus, ynysu neu ddiffyg cydweithredu a gwahardd neu ynysu o weithgareddau cymdeithasol.

<u>Aflonyddu dan Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997</u>

Mae Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 [ii](diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012[iii]) yn nodi troseddau'n ymwneud ag aflonyddu. I gael ei ystyried yn achos o aflonyddu mae'n rhaid i ymddygiad o'r natur a ddisgrifir yn y ddeddf hon fod wedi digwydd ar o leiaf ddau achlysur.

<u>Aflonyddu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010</u>

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 [iv]mae aflonyddu'n anghyfreithlon (mewn cyfraith sifil) os yw'n digwydd oherwydd y nodweddion gwarchodedig canlynol, neu os yw'n gysylltiedig â hwy: Oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth. [v] Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gall fod yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun a gall ddigwydd yn erbyn un neu fwy o unigolion.

## 2. Datganiad Polisi a Diben

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol lle gall pob myfyriwr ddysgu, gweithio a byw. Mae'r brifysgol yn credu na ddylai unrhyw fyfyriwr orfod derbyn aflonyddu ac nad yw'n rhan arferol o brofiad myfyrwyr.

Pwrpas y polisi hwn yw darparu dull hwylus a chlir ar gyfer rhoi gwybod am achosion o aflonyddu ac ymddygiad cysylltiedig ac ymateb i'r adroddiadau hynny. Nod y polisi yw sicrhau bod y brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau dyletswydd gofal i bob myfyriwr.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- ymateb yn briodol ac yn effeithiol i bob adroddiad am aflonyddu;

- gweithio gyda staff, myfyrwyr, contractwyr a phartneriaid i egluro beth yw ymddygiadau derbyniol ac annerbyniol, ac ymwybyddiaeth o'r ffaith y gall achosion o aflonyddu y rhoddir gwybod amdanynt fod yn droseddau. Byddwn yn caniatau gweithredu disgyblaethol lle bo hynny'n briodol;

- cymryd o ddifrif ein cyfrifoldeb cyfreithiol dros iechyd, diogelwch a lles ein myfyrwyr, staff ac ymwelwyr, a cheisio darparu amgylchedd diogel, iach y gall pawb gael budd ohono;

- cefnogi staff sydd â chyfrifoldebau gofal bugeiliol i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i ymateb yn effeithiol i adroddiadau;

- darparu arweiniad a gwybodaeth i fyfyrwyr fel eu bod yn gwybod pa gamau y gallant eu cymryd os ydynt yn profi aflonyddu, neu ddod ar ei draws, a'u galluogi i roi gwybod amdano a rhoi cefnogaeth briodol i ddioddefwyr;

- casglu data perthnasol i alluogi monitro honiadau o aflonyddu.

Mae gan bob myfyriwr gyfrifoldeb i gymryd gofal rhesymol dros eu diogelwch eu hunain ac eraill, ac mae 'Rheoliadau Cyffredinol' y brifysgol i bob myfyriwr yn nodi bod rhaid i fyfyrwyr beidio ag ymddwyn mewn ffordd sydd yn anghyfreithlon mewn unrhyw ffordd, yn anonest, yn niwsans neu'n aflonyddu ar unigolyn neu unigolion eraill (yn cynnwys myfyrwyr eraill neu aelodau'r cyhoedd). Fel rhan o'u contract gyda'r brifysgol, y cytunir arno ar yr adeg y maent yn derbyn cynnig i astudio ym Mangor, mae'n rhaid i bob myfyriwr gydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

Mae Cod Ymddygiad i fyfyrwyr i'w gael yma:
https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/documents/BUReg13-v201601.pdf

Mae Polisi Prifysgol Bangor ar Drais Rhywiol a Domestig yn ymdrin ag Aflonyddu Rhywiol ac mae i'w weld yma: https://my.bangor.ac.uk/inclusive-community/harassment/documents/SexualViolencePolicyJul18CYM.pdf

## 3. Sgôp y Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn y brifysgol ar hyn o bryd, yn enwedig rhai sy'n profi aflonyddu neu'n dod ar ei draws, a'r holl staff y gelwir arnynt i ymateb i adroddiadau.

Mae'r polisi'n berthnasol p'un a yw myfyrwyr ar eiddo'r brifysgol neu yn rhywle arall; ar fusnes y brifysgol neu fel arall. Os yw adroddiad yn honni ei fod yn ymwneud â myfyriwr o Brifysgol Bangor mewn unrhyw swyddogaeth, yna gall y brifysgol ymchwilio a gweithredu fel y bo'n briodol.

Mae'r polisi hefyd yn berthnasol i Undeb y Myfyrwyr, corff annibynnol sy'n cynnal ac yn rheoli ei faterion ei hun yn unol â'i gyfansoddiad ei hun.

## 4. Canllawiau i Fyfyrwyr a Chamau Gweithredu i Staff

### 4.1 Rhoi Gwybod i'r Brifysgol am Aflonyddu - Dweud wrth rywun

Gall myfyrwyr sy'n dioddef aflonyddu, neu'n dod ar ei draws, ddweud wrth unrhyw aelod staff y teimla'r myfyriwr yn gyfforddus mynd ato/ati. Yn y rhan fwyaf o achosion gall hyn fod y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr, Tiwtor Personol, Uwch Warden mewn Neuaddau, Mentor Preswyl neu aelod o staff Gwasanaethau Myfyrwyr. Os ydych wedi bod yn dyst neu wedi cael gwybod am aflonyddu yn ymwneud â rhywun heblaw chi eich hun, mae'n bwysig cael eu caniatâd cyn dweud wrth rywun arall[1].

Gall myfyrwyr ddweud wrth rywun am aflonyddu ar unrhyw adeg, ond lle mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau i roi sylw i'r mater ar unwaith (er enghraifft, os yw ymddygiad unigolyn yn risg iddo'i hun neu i eraill) mae'n bwysig bod y myfyriwr yn dweud wrth rywun cyn gynted â phosib.

Dylai myfyrwyr amlinellu wrth yr aelod staff natur yr hyn y maent wedi'i brofi a thrafod eu teimladau ynghylch sut maent yn dymuno i'r achos o aflonyddu gael ei drin. Gall yr aelod staff awgrymu bod y myfyriwr yn siarad â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i gefnogi myfyrwyr sydd wedi dioddef aflonyddu arnynt. Helen Munro cynhwysol@bangor.ac.uk 01248 388021.

Nid yw dweud wrth rywun yn golygu y rhoddwyd gwybod am y mater yn swyddogol i'r brifysgol. Bydd yr aelod staff yn gofyn yn glir beth yw dymuniadau'r myfyriwr, a chyda'u caniatâd ysgrifenedig bydd yn anfon manylion am y digwyddiad at y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio ac ystyrir hynny'n adroddiad ffurfiol.

**4.2 Y Gwahanol Ddewisiadau Hysbysu a sut gall y brifysgol ymateb**

Bydd y brifysgol bob amser yn gwrando'n ofalus ar anghenion y myfyriwr sy'n rhoi gwybod am aflonyddu ac yn gwrando arnynt o ran yr hyn y maent eisiau ei weld yn digwydd nesaf. Ni fydd yr aelod staff ar unrhyw achlysur yn perswadio neu'n pwyso ar y myfyriwr i ddewis un opsiwn yn hytrach na'r llall, ond bydd yn ei gwneud mor hawdd â phosib iddynt wneud adroddiad ffurfiol os mai dyna eu dymuniad.

Mae'r adran ganlynol yn rhestru nifer o wahanol ddulliau hysbysu ac yn amlinellu natur ymateb y brifysgol iddynt.

4.2.1 Opsiwn 1 - Rhoi gwybod i'r brifysgol ac / neu roi gwybod i'r heddlu

Os yw myfyriwr yn dymuno rhoi gwybod i'r heddlu am aflonyddu, bydd y brifysgol yn eu cefnogi'n llawn a, chyda chaniatâd y myfyriwr, yn sicrhau bod yr holl dystiolaeth y bydd yr heddlu'n gofyn amdani i'w galluogi i wneud ymchwiliad llawn yn cael ei darparu iddynt.

Yn ystod ymchwiliad troseddol i aflonyddu honedig, ni fydd y brifysgol fel rheol yn gallu cymryd camau disgyblu yn erbyn y tramgwyddwr honedig nes bod ymchwiliad llawn a phriodol ac achos llys posib wedi dod i ben. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'r broses droseddol. Yn ystod yr amser hwn, fodd bynnag, gall y brifysgol osod sancsiynau ar y tramgwyddwr honedig fel cam rhagofalus; gallai hynny gynnwys atal y myfyriwr o'i (h)astudiaethau neu ei (g)wahardd rhag mynd i rai adeiladau neu weithgareddau. Bydd hon yn weithred niwtral, hyd nes ceir canlyniad y broses droseddol, a bydd yn seiliedig ar asesiad y brifysgol o risg yng ngoleuni'r honiadau hyn.

[1] Mae Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiedig) 1992 yn nodi, lle gwnaed honiad bod trosedd rywiol wedi'i chyflawni yn erbyn rhywun, na wneir unrhyw beth yn ystod oes yr unigolyn hwnnw os yw'n debygol o arwain i **aelodau o'r cyhoedd** fedru adnabod y dioddefwr honedig.

Gall y brifysgol ystyried y mater dan ei Gweithdrefnau Disgyblu ar ôl cwblhau'r broses droseddol, waeth beth fo'r canlyniad, os yw'n ystyried bod rheolau a rheoliadau'r brifysgol wedi eu torri.

Dylid nodi y gall y myfyriwr rhoi gwybod am y mater i'r heddlu heb wneud adroddiad i'r brifysgol.

<u>4.2.2 Opsiwn 2 - Rhoi gwybod i'r brifysgol ond nid i'r heddlu</u>

Efallai y bydd myfyriwr yn dymuno rhoi gwybod yn ffurfiol am aflonyddu i'r brifysgol i'w ystyried o dan ei Gweithdrefnau Disgyblu neu i gamau mwy anffurfiol ddigwydd. Gall y brifysgol weithredu o dan ei Gweithdrefnau Disgyblu os bydd yn canfod bod torri ei rheolau a'i rheoliadau wedi digwydd.

Fodd bynnag, mae natur a sgôp proses ddisgyblu fewnol a phroses droseddol yn gwbl wahanol. Bydd y broses ddisgyblu fewnol yn fater sifil yn seiliedig ar honiad bod y tramgwyddwr honedig wedi torri rheolau a rheoliadau'r brifysgol. Bydd yn rhaid profi'r honiad ar gydbwysedd tebygolrwydd a'r brif gosb y gellir ei rhoi yw diarddel yn barhaol o'r brifysgol. Yn y broses droseddol rhaid i honiad gael ei brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol, a'r gosb mwyaf difrifol yw carchar.

Ni all y brifysgol ddyfarnu a gyflawnwyd trosedd ai peidio gan nad oes ganddi'r hawl yn ôl y gyfraith i wneud hynny. Y cyfan y gall ei wneud yw dyfarnu a yw myfyriwr wedi torri ei rheolau a'i rheoliadau ai peidio.

Bydd y brifysgol hefyd wedi'i chyfyngu o ran ei phwerau ymchwilio, ac mewn rhai achosion efallai na fydd tystiolaeth ddigonol i benderfynu ar gydbwysedd tebygolrwydd bod yr aflonyddu y rhoddwyd gwybod amdano wedi digwydd.

<u>4.2.3 Rhoi gwybod am aflonyddu'n ddienw</u>

Efallai y bydd y myfyriwr yn dymuno rhoi gwybod am y digwyddiad yn ddienw at ddibenion monitro yn unig, gan ddymuno/neu heb ddymuno i'r brifysgol ymchwilio i'r mater ymhellach. Efallai na fydd y brifysgol yn gallu cynnal ymchwiliad llawn heb dystion/ tystiolaeth ond bydd manylion y mater yn cael eu cadw ar ffeil a bydd gwybodaeth yn cael ei monitro'n rheolaidd i nodi unrhyw dueddiadau posibl mewn adroddiadau.

| |
|---|
| ***Camau gweithredu i staff***<br><br>*Gofynnwch am gyngor ac arweiniad gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio ynghylch unrhyw gyswllt â'r heddlu.*<br><br>*Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio am achosion o aflonyddu cyn gynted â phosibl gan ddarparu cymaint o fanylion â phosibl. Gweler Adran 5 am y drefn hysbysu.*<br><br>*Gofalwch fod y myfyriwr yn deall y gwahanol opsiynau hysbysu sydd ar gael ac yn cael gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth mewnol ac allanol sydd ar gael iddo/iddi.* |

## 5. Canllawiau cyffredinol i'r holl staff

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i ymateb i faterion aflonyddu y rhoddir gwybod amdanynt (gyda chaniatâd y myfyriwr) cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, trwy ddilyn y drefn a nodir yn y polisi hwn.

### 5.1 Hyrwyddo amgylchedd diogel

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i hyrwyddo amgylchedd diogel, ac os ydynt yn dyst i aflonyddu, yna mae'n rhaid iddynt weithredu fel y bo'n briodol i roi sylw iddo.

Gallai hynny gynnwys:

- ymyrryd i atal aflonyddu neu ei gwneud yn glir nad yw'r ymddygiad a welwyd yn dderbyniol;
- gwirio i weld a yw'r myfyriwr angen cefnogaeth i symud ei hun o sefyllfa o aflonyddwch;
- cysylltu ag aelod staff uwch, swyddogion diogelwch y brifysgol a/neu'r heddlu pan nad yw aelod staff yn teimlo'n ddiogel i roi sylw uniongyrchol i'r ymddygiad maent yn ei weld.

**5.2 Ymateb i adroddiadau am aflonyddu ar fyfyrwyr**

5.2.1 Egwyddorion cyffredinol

Gall unrhyw aelod staff dderbyn adroddiad am aflonyddu gan fyfyriwr.

Rhaid i holl staff wneud y canlynol:

- Sicrhau y gellir cynnal y sgwrs gyda'r myfyriwr yn breifat a heb ymyrraeth. Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn sydd gan y myfyriwr i'w ddweud a chydnabod hynny, ond byddwch yn ofalus i beidio â nodi unrhyw farn eich hun ynghylch eu hadroddiad. Cymerwch ofal wrth ailadrodd unrhyw beth yn ôl i'r myfyriwr at ddibenion eglurder nad ydych yn aralleirio a'ch bod yn adlewyrchu cyn belled ag y bo modd yr iaith y mae'r myfyriwr wedi'i defnyddio wrth roi gwybod am y mater. *Cofiwch y gall yr heddlu ofyn am unrhyw nodiadau a gymerir yn ddiweddarach fel rhan o ymchwiliad troseddol*. Cysurwch y myfyriwr bod ganddynt yr hawl i deimlo'n ddiogel ac y bydd y brifysgol yn gefnogol.

- Eglurwch efallai yr hoffai'r myfyriwr siarad â'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr sydd wedi'i hyfforddi i ymdrin ag adroddiadau am aflonyddu. Cyswllt: Helen Munro cynhwysol@bangor.ac.uk 01248 388021. Dylai staff sicrhau nad oes rhaid i'r myfyriwr fynd dros y digwyddiadau fwy nag unwaith.

- Dylech benderfynu a oes risg uniongyrchol i'r myfyriwr neu eraill, ac os felly, gweithredu'n briodol gydag unrhyw gefnogaeth angenrheidiol gan aelod staff uwch neu adran ddiogelwch y brifysgol (Mewnol 333, Allanol 01248 382795) a/neu'r heddlu (galwadau brys: 999, galwadau nad ydynt yn rhai brys: 101 neu 0300 330 0101) i sicrhau amgylchedd diogel i'r myfyriwr ac eraill. Os oes gan y myfyriwr bryderon am ddiogelwch yn y dyfodol, rhaid sicrhau eu bod yn deall y gallant gysylltu â staff diogelwch y brifysgol pan fyddant ar eiddo'r brifysgol a/neu â'r heddlu pan fyddant oddi ar y campws a sicrhau bod ganddynt y rhifau ffôn cywir fel y nodir uchod.

- Holwch y myfyriwr sut mae'n dymuno delio â'r aflonyddu, gan gofio y gallai gymryd peth amser i'r myfyriwr wneud penderfyniad ynglŷn â hynny. Byddwch yn ymwybodol o'r amrywiol opsiynau hysbysu sydd i'w gweld yn Adran 4.3 y polisi hwn. Os yw'r myfyriwr yn dymuno mynd at yr heddlu, gellwch hwyluso hyn trwy ddarparu'r manylion cyswllt perthnasol.

- Holwch y myfyriwr i sicrhau bod eu diogelwch uniongyrchol ac anghenion cefnogi wedi eu cyflawni, a'u bod yn deall â phwy y gallant gysylltu os ydynt (neu pan maent) yn dymuno cael rhagor o gefnogaeth. Anogwch hwy i fynd i gyfarfod y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr os yw'n briodol a hwyluswch gyfarfod o'r fath. Os nad oes gan y myfyriwr le diogel i aros - cysylltwch â Swyddfa'r Neuaddau (01248 382667) neu'r Swyddfa Tai Myfyrwyr (01248 382034).

- Ar ôl cael gwybod am achos o aflonyddu, mae'n rhaid i chi roi gwybod am y mater (gan gynnwys pa bynnag wybodaeth y mae'r myfyriwr yn dymuno ei rhannu) i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, gan ddilyn y drefn hysbysu a nodir yn Adran 5.2.2.

- Os ydych yn teimlo bod y risg i'r myfyriwr neu i eraill mor fawr fel y bydd rhaid efallai i'r brifysgol fynd yn groes i ddymuniadau'r myfyriwr i beidio â rhoi gwybod am y digwyddiad i'r heddlu, yna dylid gofyn am gyngor gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio ac/neu aelod o staff uwch y brifysgol i sefydlu camau gweithredu priodol. Gallai hyn fod yn angenrheidiol, er enghraifft, os oes risg uchel y gall y tramgwyddwr honedig aflonyddu ar y myfyriwr drachefn neu y gallai fod bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch y myfyriwr neu eraill.

- Os ydych yn amau y gall y tramgwyddwr honedig hefyd fod yn gyflogedig gan y brifysgol mewn unrhyw ffordd, rhaid hysbysu Adnoddau Dynol ar unwaith er mwyn cael eglurhad, a chytunir ar ymateb priodol rhwng y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

- Ni ddylech fyth geisio datrys y pryderon drwy gysylltu â'r tramgwyddwr honedig. Gall gweithred o'r fath fod yn achos o dorri'r drefn weithredu a gallai hynny ddirymu unrhyw gamau disgyblu dilynol.

5.2.2 Rhoi gwybod i'r brifysgol am aflonyddu

Gellir cyflwyno adroddiadau ffurfiol i'r brifysgol yn ysgrifenedig i cwynion@bangor.ac.uk neu'n bersonol i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr, a fydd wedyn yn rhoi gwybod am y mater yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio ar ran y myfyriwr gan sicrhau proses gefnogol i'r myfyriwr yr un pryd.

5.2.3 Monitro digwyddiadau o aflonyddu

Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn cadw cofnod o bob adroddiad am aflonyddu a bydd yn rhoi adroddiad rheolaidd i'r Grŵp Trais ar sail Rhywedd. Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, bydd data dienw yn cael eu harchwilio i nodi unrhyw dueddiadau mewn ymddygiad; er enghraifft unrhyw ddigwyddiadau eraill yn y mannau lle gallai aflonyddu fod wedi digwydd, neu natur yr adroddiadau a wnaed. Dylai unrhyw dueddiadau gael eu trafod gan banel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Myfyrwyr, y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, a'r rhai a enwebir ganddynt, i lywio camau gweithredu yn y dyfodol.

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr**
**Gan: Helen Munro**
**Dyddiad: 7 Chwefror 2020**

| **Nod y Project** |
|---|
| *Beth mae'r project yn gobeithio ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac/neu anariannol)* |
| Pwrpas y polisi hwn yw darparu dull hwylus a chlir ar gyfer rhoi gwybod am honiadau/achosion o aflonyddu ac ymateb iddynt. Nod y polisi yw sicrhau bod y brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau dyletswydd gofal i bob myfyriwr. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y Project** | Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr |
| **Arweinydd y Project** | Helen Munro |
| **Tîm y Project** | Grŵp Trais ar Sail Rhywedd (Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |

| **Beth yw effaith y project, y polisi neu'r ymarfer ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig?** |
|---|
| *O dan y ddyletswydd cydraddoldeb (sydd wedi ei nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010), rhaid i'r brifysgol roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Y nodweddion gwarchodedig sydd yn y ddyletswydd cydraddoldeb yw:* ***oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw*** *a* ***chyfeiriadedd rhywiol****. Mae'r ddyletswydd yn ymwneud hefyd â phriodas a phartneriaethau sifil, ond dim ond o ran dileu gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r brifysgol ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i amcanion y ddyletswydd cydraddoldeb yn ei phrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Er nad ydynt yn nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid rhoi sylw dyledus hefyd i effeithiau'r prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau ar* ***ofalwyr****. Mae angen rhoi sylw dyledus hefyd i'r* ***iaith Gymraeg*** *o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* |

| **Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** | **Manylion yr Effaith (Cadarnhaol/Niwtral/Negyddol)** | **Tystiolaeth** |
|---|---|---|
| **Dileu Gwahaniaethu**<br><br>• *A yw'r project yn debygol o drin rhywun yn llai ffafriol neu eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at wahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau gwarchodedig?* | Nid yw'r polisi yn debygol o drin neb yn llai ffafriol na'u rhoi dan anfantais.<br><br>Bydd y polisi yn arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol i'r rhai sydd wedi profi unrhyw fath o aflonyddu. | Pwrpas y polisi hwn yw darparu dull hwylus a chlir ar gyfer rhoi gwybod am honiadau/achosion o aflonyddu ac ymateb iddynt. Nod y polisi yw sicrhau bod y brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau dyletswydd gofal i bob myfyriwr. |

| | | |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal**<br><br>• *A fydd anghenion y staff a'r myfyrwyr hynny sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu bodloni?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at fwy o ymwneud/cyfranogiad gan y grwpiau gwarchodedig?*<br>• *A oes unrhyw gyfleoedd i fynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchodedig penodol a/neu rhwng grwpiau gwarchodedig?* | Bydd anghenion staff a myfyrwyr â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu bodloni gan fod hwn yn bolisi cynhwysol sy'n ceisio pennu dull gweithredu teg i ymateb y brifysgol i adroddiadau am aflonyddu.<br><br>Bydd cael Polisi ar Aflonyddu ar Fyfyrwyr yn dangos i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr bod Prifysgol Bangor o ddifrif ynghylch ei hymrwymiad i sicrhau cymuned brifysgol gynhwysol.<br><br>Bydd y polisi hwn yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cydraddoldeb i bob myfyriwr. | Y polisi. |
| **Hybu Perthynas Dda**<br><br>• *A oes camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth?*<br>• *Sut mae unigolion, grwpiau neu gyrff perthnasol wedi eu cynnwys/wedi cael cyfle i roi eu barn wrth ddatblygu ac asesu effaith y project?* | Mae'r polisi'n nodi'n glir y dulliau gweithredu i'w dilyn gan staff ac eraill wrth greu amgylchedd cynhwysol i rai sy'n dioddef aflonyddu arnynt.<br><br>Ymgynghorwyd â'r holl randdeiliaid perthnasol wrth ddatblygu'r ddogfen hon.<br><br>Mae taflen sy'n amlinellu'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr wedi'i ddatblygu i helpu myfyrwyr i ddeall beth yw aflonyddu a'r ymddygiadau yr ystyrir eu bod yn mynd yn groes i'r Rheoliadau Cyffredinol i Bob Myfyriwr. | Y polisïau drafft. |

| **Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?** | |
|---|---|
| **Does dim angen newid mawr**<br>*Nid yw'r asesiad wedi canfod unrhyw botensial i wahaniaethu nac effaith andwyol a chymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.* | ✓ |
| **Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.** | |

| | |
|---|---|
| *Nodi'r addasiadau a wneir i ddiddymu'r rhwystrau sydd wedi eu nodi yn yr asesiad neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.* | |
| **Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau andwyol neu golli cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb.**<br>*Nodi'r camau a gaiff eu cymryd i leihau neu i liniaru'r effeithiau andwyol.* | |
| **Aros ac ailfeddwl**<br>*Mae'r asesiad yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosib. Nodi'r camau a gymerir i atal ac/neu ailfeddwl am y project.* | |

| **Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?** |
|---|
| Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol gan y Swyddog Polisi i nodi unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau ym maes cymorth i rai sydd wedi dioddef aflonyddu arnynt. Adolygir y polisi'n ffurfiol bob tair blynedd, gan y Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. |

**Cyhoeddi**

Caiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr.

**Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr**
**Gan: Helen Munro**
**Dyddiad: 7 Chwefror 2020**

| **Nod y Project** |
|---|
| *Beth mae'r project yn gobeithio ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac/neu anariannol)* |
| Pwrpas y polisi hwn yw darparu dull hwylus a chlir ar gyfer rhoi gwybod am honiadau/achosion o aflonyddu ac ymateb iddynt. Nod y polisi yw sicrhau bod y brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau dyletswydd gofal i bob myfyriwr. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y Project** | Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr |
| **Arweinydd y Project** | Helen Munro |
| **Tîm y Project** | Grŵp Trais ar Sail Rhywedd (Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |

| | **Manylion yr Effaith (Cadarnhaol/Niwtral/Negyddol)** | **Tystiolaeth** |
|---|---|---|
| *Sut mae'r polisi hwn yn dangos ymrwymiad i egwyddorion cynaliadwyedd y brifysgol, gan gynnwys camau gweithredu, amserlenni, hyfforddiant myfyrwyr a staff, a goblygiadau o ran adnoddau lle bo hynny'n berthnasol?* | Mae'n nodi hyd a lled yr heriau cymdeithasol, ac yn eu gwneud yn weladwy i eraill. Mae'n cymryd perchnogaeth o'r heriau sy'n wynebu'r rhai yr aflonyddir arnynt ac mae'n sicrhau y rhoddir ystyriaeth hirdymor briodol i'r heriau hynny a rhoi atebion ar waith sy'n gwella profiad y myfyrwyr. Mae'n gwerthfawrogi barn y myfyrwyr hynny a'r aelodau staff sy'n eu cefnogi. Mae'n codi ymwybyddiaeth o'r heriau cyffredin y mae rhai yr aflonyddir arnynt yn eu hwynebu ac yn meithrin amgylchedd o ddealltwriaeth a dysgu. | Y ddogfen bolisi |
| *Gyda phwy rydych wedi gweithio i ddatblygu'r polisi hwn (o fewn y brifysgol ac yn allanol)?* | Y Grŵp Trais ar Sail Rhywedd a'r Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r brifysgol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr. | Cofnodion y Grŵp Trais ar Sail Rhywedd<br>Cofnodion y Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| *Sut mae'r polisi'n cael ei fonitro o ran cynaliadwyedd?* | Caiff cynaliadwyedd y polisi ei fonitro'n flynyddol fel rhan o adolygiad polisi ehangach, gan Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Myfyrwyr. | Y ddogfen bolisi. |

| **Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?** | |
|---|---|
| **Does dim angen newid mawr** | ✓ |
| **Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cynaliadwyedd yn well** | |
| **Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau andwyol neu golli cyfleoedd i hyrwyddo cynaliadwyedd.** | |
| **Aros ac ailfeddwl** | |

| **Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?** |
|---|
| Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol gan y Swyddog Polisi i nodi unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu arfer gorau ym maes cymorth i rai sydd wedi dioddef aflonyddu arnynt. Adolygir y polisi'n ffurfiol bob tair blynedd, gan y Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. |

**Cyhoeddi**
Caiff yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Polisi Aflonyddu ar Fyfyrwyr.

[i] Cyngor ar Bopeth https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/discrimination/what-are-the-different-types-of-discrimination/harassment/
[ii] Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/40/contents
[iii] Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/9/contents
[iv] Deddf Cydraddoldeb 2010 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents
[v] Changing the Culture: Report of the UUK Task Force examining violence against women, harassment and hate crime affecting University students October 2016